Tasg 4

Hen bethau

1. Darllenwch y paragraff yma.

> Heddiw, mae'n bosib prynu popeth o'r we – gemau cyfrifiadur cyffrous, llestri lliwgar, dillad modern, llyfrau diddorol, beiciau cyflym. Cliciwch ... talwch ... a dyna chi!

2. Darllenwch y paragraff yma.

> Amgueddfa sbwriel ydy hi lle mae'n bosib gweld hen offerynnau cerdd, hen radios, hen dedis, hen deganau, hen glociau, hen lestri a Beibl o 1743. Mae'r pethau hyn yn dod o'r domen sbwriel.

3. Rhestrwch yr ansoddeiriau – y geiriau disgrifio – yn y ddau baragraff.

Paragraff 1	**Paragraff 2**

Ewch i'r dudalen nesaf.

4. Edrychwch:

Paragraff 1	Paragraff 2
dillad modern, llyfrau diddorol	hen deganau, hen glociau

a. Sut mae defnyddio ansoddeiriau fel arfer – **o flaen** yr enw neu **ar ôl** yr enw?

b. Sut mae defnyddio “hen” – **o flaen** yr enw neu **ar ôl** yr enw?

c. Beth sy’n digwydd ar ôl “hen”?

Ewch i’r dudalen nesaf.

5. Cyfieithwch y brawddegau yma i'r Gymraeg:

a. There are old radios in the museum.	
b. The girl likes to buy new clothes.	
c. I like to buy vintage (old) clothes on the internet	
ch. Are there modern books in the museum?	
d. The museum is in a small town in Germany.	